

LLYTHYR YN RHOI CYNGOR CYCHWYNNOL OS CAIFF ACHOS EI GADARNHAU YN YR YSGOL GAN Y TÎM PROFI OLRAIN DIOGELU A BCBC

Annwyl Riant/Gofalwr,

Rydym wedi cael gwybod bod achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau yn nosbarth/grŵp blwyddyn eich plentyn **BLWYDDYN 3** yn **YG BRO OGWR**

Gall eich plentyn barhau i ddod i'r ysgol ond, gofynnwn ichi fod yn wylidwrus rhag ofn y bydd yn dangos symptomau COVID-19. Dyma'r symptomau mwyaf cyffredin:

- tymheredd (dros 37.8°C);
- peswch newydd/parhaus; a/neu
- newid yn y gallu i flasau neu arogl

Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw symptomau COVID-19, peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol ond trefnwch brawf PCR ar unwaith. Os bydd unrhyw un arall yn y cartref yn datblygu symptomau, ni waeth pa mor ysgafn, dylent hwythau hefyd drefnu i gael prawf PCR cyn gynted â phosibl a dilyn y canllawiau yn <https://lyw.cymru/canllawiau-hunanynysu>. Os bydd canlyniad prawf PCR eich plentyn yn bositif, bydd angen iddo neu iddi hunan ynysu am gyfnod o 10 diwrnod.

Fel ysgol, nid ydym bob amser yn gwybod am amgylchiadau personol teuluoedd ac mae'n bosibl bod oedolion neu blant agored i niwed yn y cartref neu'r grŵp cyswllt estynedig. Drwy roi'r wybodaeth hon i chi, rwy'n gobeithio y bydd yn haws ichi benderfynu a ddylech ymweld â phobl oedrannus neu agored i niwed a diogelu'ch anwyliad.

Does dim angen i chi wneud dim ar hyn o bryd. Rwy'n anfon y llythyr hwn atoch er gwybodaeth yn unig, ond mae'n bosibl y bydd y tîm Profi, Orlhain, Diogelu yn cysylltu â chi i roi rhagor o wybodaeth a chyfarwyddyd i chi. Os na fyddwch yn clywed ganddynt, gallwch ddal ati fel arfer.

Does dim rhaid i neb sydd wedi'i frechu'n llawn (a chyfnod o 14 diwrnod wedi mynd heibio ers y brechlyn olaf) na neb o dan 18 oed, hunan ynysu os ydynt wedi bod mewn cysylltiad agos ag achos positif, oni bai bod y tîm Profi, Orlhain, Diogelu yn dweud wrthynt am wneud hynny.

Gwyddom nad yw COVID-19, yn gyffredinol, yn effeithio cymaint ar bobl ifanc ag y gall ar aelodau eraill o'r teulu neu'r gymuned. Ond i help i gadw pawb arall yn ddiogel, mae rhai pethau y gallwch chi/eich plentyn ei wneud i leihau'r perygl o ledaenu'r haint.

Yn ystod y 10 diwrnod nesaf, rydym yn eich cynghori chi/eich plentyn:

- **Fod yn wylidwrus rhag ofn y bydd symptomau newydd yn datblygu.**
Os byddwch chi/eich plentyn yn dechrau teimlo'n wael, ni waeth pa mor ysgafn yw'r symptomau, dylech chi/eich plentyn gadw draw o'r ysgol a chael prawf PCR.
- **Daliwch ati i olchi'ch dwylo'n rheolaidd.**
Mae hyn dal yn ffordd bwysig o atal nifer o heintiau rhag lledaenu, gan gynnwys COVID-19.

Gwyddom fod y pandemig wedi tarfu'n sylweddol ar bawb y llynedd. Eleni, rydym am sicrhau bod eich plentyn yn bresennol yn yr ysgol mor aml â phosibl, ond rydym hefyd yn awyddus i gadw'n cymunedau'n ddiogel rhag effeithiau COVID-19.

**Cewch ragor o wybodaeth a chyngor drwy ffonio llinell gymorth
COVID-19: 01443 425020.**

Diolch yn fawr